CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd nos Lun, 3 Rhagfyr, 2018 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig

Presennol:

Cyng. Dilwyn Jenkins *(Cadeirydd)*
Cyng. Llinos Price
Cyng. Ann Stokoe
Cyng. Peter Williams
Cyng. Clive Davies (*Aelod lleol o'r Cyngor Sir*)
Cyng. Auriol Williams
Cyng. Lyn Jones
Cyng. Eurig Lloyd
Cyng. Matthew Morgan
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol: Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i gyfarfod mis Rhagfyr. Cydymdeimlodd gyda'r Cyng. Auriol Williams a'i phriod, John, ar golli brawd-yng-nghyfraith, Mr Islwyn Griffiths, yn ddiweddar.

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb: Y Cyng. Des Davies

3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.

Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod cofnodion mis Tachwedd yn gywir.

4. Datgelu buddiannau personol:

Cais cynllunio A181123 (Trewindsor): Y Cyng. Lyn Jones.
Gohebiaeth [Rhif 58]: Pwll Nofio Aberteifi: Y Cyng. Matthew Morgan

5. Materion yn codi:

(a) **Cinio Nadolig i'r Henoed (dros 70 oed):** Cynhelir y ginio ar ddydd Gwener, 14 Rhagfyr.

(b) **Cysgodfan Bysiau Penyparc:** Oherwydd y tywydd anffafriol, bu'n rhaid i Bus Shelters Ltd. ohirio'r gwaith tan y flwyddyn newydd.

6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Cyngor ar Bopeth	Talwyd ym mis Ebrill	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	Talwyd ym mis Ebrill	£150.00
Gofal Mewn Galar	Talwyd ym mis Ebrill	£50.00
Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru	Talwyd ym mis Hydref	£150.00
Capel y Bedyddwyr Penyparc	Talwyd ym mis Hydref	£1,000.00
Clwb Pêl-droed Penyparc	I'w drafod ym mis Ebrill 2019	
Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Ebrill 2019	

Oherwydd bod y Pwll Nofio tan fygythiad ariannol, teimlwyd bod yn rhaid cefnogi er budd plant ac ieuenctid yr ardal sydd yn ei fynychu, felly cytunwyd cyfrannu £1,000 tuag at yr achos.

7. Cynllunio:

Rhif y Cais	*Cyfeiriad a Bwriad*	*Sylwadau'r Cyngor*
A181116	The Cot, Gwbert: Replacement dwelling	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.
A181119	Plots 10 and 11, adjacent Preswylfa, Penparc: Erection of two bungalows with integral garages	Mewn egwyddor mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais; sylwer bod problem gyda'r dŵr sydd ar wyneb y lleoliad.
A181123	Trewindsor Farm, Llangoedmor: Conversion of existing outbuildings to 3 x holiday lets	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad.

8. Materion Ariannol

Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Tachwedd 2018)	101727	£308.77
Costau'r Clerc (Tachwedd 2018)	101728	£53.40
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Tachwedd 2018)	101729	£77.20
Y Cyng. Dilwyn Jenkins (Ail daliad Lwfans y Cadeirydd)	101730	£175.00
SLCC: Aelodaeth 2019	101731	£106.00
D. E. Owen & Son (Torri Porfa Cae Pêl-droed)	101732	£1,697.40
Pwll Nofio Aberteifi	101733	£1,000.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Materion ariannol eraill:

Mae'r ddogfen, sydd yn cynnwys awgrymiadau'r Clerc tuag at gyllideb 2019-20, wedi ei blaenyrru at yr aelodau er mwyn penderfynu ar y praesept yng nghyfarfod misol y Cyngor ar 7 Ionawr 2019.

Derbyniadau: Dim

9. Gohebiaeth:

52	Cyngor Sir Ceredigion (Cyllid a Chaffael)	Ffurflenni'r Praesept 2019-20.	Nodwyd.
53	Cyngor Cymuned Llangoedmor	Gwahoddiad i gyflwyniad gan y Ddr Jane Davidson ar "Ddatblygiad Un Blaned", Neuadd y Cyryglau, Llechryd, 10 Ionawr 2019, 7.00yh.	Mae'r gwahoddiad wedi ei flaenyrru i'r aelodau ar 13 Tachwedd.
54	Cyngor Sir Ceredigion (Moeseg a Safonau)	Cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau: 18 Ionawr, 29 Mawrth, 28 Mehefin	Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 15 Tachwedd.
55	Mr Ken Griffiths, Lleifior, Ferwig	Llythyr yn derbyn gwahoddiad y Cyngor iddo archwilio'r fantolen ariannol am y flwyddyn 2018-19.	Cytunwyd bod Mr Griffiths yn gwasanaethu fel Archwilydd Mewnol y Cyngor am y flwyddyn 2018-19.
56	Pwyllgor Lles Pentref Penyparc	Llythyr o ddiolch am gefnogaeth y Cyngor i'r Carnifal eleni.	Nodwyd.
57	Cyngor Sir Ceredigion (Cau ffordd dros dro)	USRN 47101446 (Y Ferwig): gwaith gwasanaeth dŵr, 28/11/18-29/11/18, 8:00-17:30	Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 22 Tachwedd.
58	Pwll Nofio Aberteifi	Cais am gymorth i gadw'r Pwll ar agor.	Oherwydd bod y Pwll Nofio tan fygythiad ariannol, teimlwyd bod yn rhaid cefnogi er budd plant ac ieuenctid yr ardal sydd yn ei fynychu, felly cytunwyd cyfrannu £1,000 tuag at yr achos.
59	Llywodraeth Cymru	Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137 – y terfyn ar gyfer 2019-20.	Penodir £8.12 fel yr uchafswm y gellir ei wario o dan adran 137(1) ac (3) am bob etholwr.
60	Cyngor Sir Ceredigion (Mererid Jones, Swyddog Prosiectau ac Ymgysylltu Gwastraff)	Dyddiadau casgliadau gwastraff dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd:	Gosodwyd y posteri ar yr hysbysfyrddau.

10. Materion Eraill:

(a) **Y Cyng. Matthew Morgan:** Diolchodd y Cyng. Morgan i'r Cyngor am y cyfraniad tuag at Bwll Nofio Aberteifi

(b) **Y Cyng. Ann Stokoe:** Dywedodd y Cyng. Stokoe ei bod yn bwriadu ymddiswyddo fel cynghorydd ym mis Mai 2019.

(c) **Y Cyng. Auriol Williams:** Diolchodd y Cyng. Williams i'r Cadeirydd am y rhodd i elusen Parkinsons UK yn dilyn hanner marathon Caerdydd yn ddiweddar. Fe godwyd £3,500 ganddi hi a'i theulu tuag at yr achos.

(d) **Difrod i un o ddrysau ystafelloedd newid Ystafell Berkley:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gydag ysgrifennydd y Clwb Pêl-droed, Mrs Melanie Davies, am wybodaeth ynglŷn â'r difrod.

(e) **Ffair Nadolig Hen Ysgol y Ferwig:** Dywedodd y Cadeirydd, y Cyng. Dilwyn Jenkins, ei fod wedi ei anrhydeddu i agor y Ffair Nadolig eleni; roedd y digwyddiad yn llwyddiannus iawn.

(f) **Y Sied, Mwnt:** Cytunodd y Cadeirydd fynychu'r cyfarfod ym Mhenmorfa ddydd Mercher, 12 Rhagfyr pan y caiff y cais (A180637) ei drafod gan y swyddogion a Phwyllgor Rheoli a Datblygu'r Cyngor Sir.

11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies:

(a) **Brynteg, Ferwig:** Mae'r Cyng. Davies wedi anfon e-bost arall at Mr Huw Davies o'r Cyngor Sir, yn gofyn am ddiweddariad ynglŷn â'r sefyllfa.

(b) **Y ffordd lawr i draeth y Mwnt:** Mae perchnogion y tir wedi arwyddo'r cytundeb gyda'r Cyngor Sir. Bydd hyn yn caniatáu i'r gwaith ddechrau yn y flwyddyn newydd.

(c) **Band-eang yn Felinwynt:** Cynhelir cyfarfod agored rhwng trigolion Felinwynt ac Elin Jones AC ar 9 Rhagfyr i drafod y diweddariad am osod system band-eang cyflym yn yr ardal.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7 Ionawr (YB)

Cyfarfodydd y Cyngor am 2019:

4 Chwefror (F) 4 Mawrth (YB) 1 Ebrill (F) 13 Mai (YB) 3 Mehefin (F)
1 Gorffennaf (YB) 2 Medi (F) 7 Hydref (YB) 4 Tachwedd (F) 2 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on Monday, 3 December, 2018 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig.

Present

Cllr Dilwyn Jenkins *(Chairperson)*
Cllr Llinos Price
Cllr Ann Stokoe
Cllr Peter Williams
Cllr Clive Davies (*Local member of the County Council)*
Cllr Auriol Williams
Cllr Lyn Jones
Cllr Eurig Lloyd
Cllr Matthew Morgan
Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

1. Chairperson's welcome and Personal Matters.

The Chairman, Cllr Dilwyn Jenkins, welcomed all members to the December meeting. He offered the Council's condolences to Cllr Auriol Williams and her husband, John, on the passing of their brother-in-law, Mr Islwyn Griffiths.

2. Apologies for absence: Cllr Des Davies

3. Minutes of the previous meeting.

It was proposed by Cllr Lyn Jones and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the minutes of the November meeting be recorded as correct.

4. Declaration of personal interests:

Planning application A181123 (Trewindsor): Cllr Lyn Jones.

Correspondence [No. 58]: Cardigan Swimming Pool: Cllr Matthew Morgan.

5. Matters arising:

(a) **Christmas Dinner for the over 70's in the community:** The dinner will be held on Friday, December 14 at Cardigan Golf Club.

(b) **Bus Shelter at Penyparc:** Due to adverse weather conditions, the company, Bus Shelters Ltd., have informed the Clerk that they are unable to carry out this work until the new year.

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Citizens' Advice Bureau	Paid in April 2018	£150.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	Paid in April 2018	£150.00
Cruse Bereavement Care	Paid in April 2018	£50.00
Bobath Wales Children's Therapy Centre	Paid in October 2018	£150.00
Penyparc Chapel	Paid in October 2018	£1,000.00
Penyparc Football Club	To be discussed in April 2019	
Hen Ysgol y Ferwig	To be discussed in April 2019	

Due to the financial difficulties experienced by Cardigan Swimming Pool, and its importance to the welfare and leisure activities of local children, it was agreed to donate £1,000 towards its running costs.

7. Planning:

App No	*Address and Purpose*	*Council Observations*
A181116	The Cot, Gwbert: Replacement dwelling	The Council has no objection.
A181119	Plots 10 and 11, adjacent Preswylfa, Penparc: Erection of two bungalows with integral garages	The Council supports the application in principle, but notes that a problem with surface water drainage appears to be on-going.
A181123	Trewindsor Farm, Llangoedmor: Conversion of existing outbuildings to 3 x holiday lets	The Council has no objection.

8. Financial Matters.

Bills paid:

Clerk's wages (November 2018)	101727	£308.77
Clerk's Expenses (November 2018)	101728	£53.40
HM Revenue & Customs: Clerk's Income Tax (November 2018)	101729	£77.20
Clr Dilwyn Jenkins (Second instalment of Chairman's allowance)	101730	£175.00
SLCC: Membership for 2019	101731	£106.00
D. E. Owen & Sons (grasscutting of football pitch)	101732	£1697.40
Cardigan Swimming Pool	101733	£1,000.00

It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Auriol Williams that the above bills be paid.

Other financial matters: The 2019-20 budget document, including the Clerk's recommendations, has been distributed to all members. It was agreed to set the precept at the 7 January 2019 Council meeting.

Receipts: None.

9. Correspondence:

52	Ceredigion County Council (Finance & Procurement)	Precept form 2019-20.	Noted
53	Llangoedmor Community Council	Invitation to a presentation by Dr Jane Davidson on "One Planet Development" policy to be held at The Coracle Hall, Llechryd on the 10 January 2019 at 7.00pm	The invitation was forwarded to all members on the 13 November.
54	Ceredigion County Council. (Ethics & Standards)	Meeting of the Ethics & Standards Committee: 18 January, 29 March, 28 June	Forwarded to all Councillors on the 15 November.
55	Mr Ken Griffiths, Lleifior, Ferwig	Letter accepting the Council's invitation to audit the balance sheet for the financial year 2018-19.	It was agreed to accept Mr Griffiths as the Council's Internal Auditor for the 2018-19 accounts.
56	Pwyllgor Lles Pentref Penyparc	Letter of ackowledgment for the Council's support towards this year's Carnival.	Noted
57	Ceredigion County Council (Temporary road closure)	USRN 47101446 (Y Ferwig): water service repair 28/11/18-29/11/18, 8:00-17:30	Forwarded to all members on 22 November.
58	Cardigan Swimming Pool	Request for financial aid in order to enable the pool to remain open.	See item 6 above.
59	Welsh Government	Appropriate sum under Section 137(4)(a) of the Local Government Act 1972.	The maximum expenditure that can be incurred under the appropriate sections for the financial year 2019-20 will be £8.12 per elector.
60	Ceredigion County Council (Mererid Jones, Waste Projects & Engagement Officer)	Christmas and New Year waste collection dates.	Posters have been placed in the notice boards

10. Other Matters:

(a) **Cllr Matthew Morgan:** Cllr Morgan thanked the Council for the donation towards the swimming pool.

(b) **Cllr Ann Stokoe:** Cllr Stokoe stated that she would be stepping down as councillor in May 2019**.**

(c) **Cllr Auriol Williams:** Cllr Williams thanked the Chairman for his donation towards the Parkinsons UK charity following the Cardiff Half Marathon. £3,500 was raised towards the charity by the family.

(d) **Damaged door at Ystafell Berkley changing room:** The Clerk was requested to contact the secretary of the Football Club, Mrs Melanie Davies, for any information that might shed light on the vandalism.

(e) **Christmas Fair at Hen Ysgol y Ferwig:** Cllr Dilwyn Jenkins stated that he was honoured to have been invited to open the Christmas Fair at Ferwig Old School; a successful event was enjoyed by all.

11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:

(a) **Brynteg, Ferwig:** Cllr Davies has forwarded another letter to the County Council Enforcement Officer, Mr Huw Davies, requesting an update to the issue.

(b) **The lane down to Mwnt:** The landowners have agreed terms with officers of the County Council; this will enable plans regarding the work to proceed.

(c) **Super-fast Broadband at Felinwynt:** An open meeting will be held on 9 December between Elin Jones AM and local residents to discuss the latest development to improve the broadband service in the area.

12. Date of next meeting: 7 January 2019 at Ystafell Berkley, Penyparc.

2019 Council Meetings:

4 February (F) 4 March (YB) 1 April (F) 13 May (YB) 3 June (F)

1 July (YB) 2 September (F) 7 October (YB) 4 November (F) 2 December (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting